Hawdd ei ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Pam ddylech chi bleidleisio

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Pam pleidleisio?**




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

Pam ddylech chi bleidleisio....4

Rhesymau dros bleidleisio....6

# Pam ddylech chi bleidleisio



Oes gennych chi farn am:

- Eich ysbytai?
- Eich ysgolion?
- Faint mae pethau'n ei gostio?



Pan fyddwch chi'n pleidleisio mewn etholiad, mae eich barn yn cael ei glywed.



Mae'r bobl rydych chi'n pleidleisio amdanyn nhw yn dod yn Aelodau o'r Senedd.



Mae aelodau'r Senedd yn gyfrifol am lawer o bethau sy'n effeithio ar ein bywydau.




Rydych chi;n gallu darganfod mwy yma: **Beth mae'r Senedd yn ei wneud?**



Pleidleisio ydy eich cyfle i gael dweud eich dweud ar bwy sy'n siarad dros y pethau sy'n bwysig i chi.

# Rhesymau dros bleidleisio




Mae gan bawb 1 bleidlais.




Rydych chi'n gallu darganfod mwy am sut mae eich pleidlais yn cael ei chyfrif yma: **Sut mae'r system bleidleisio yn gweithio**

**Mae pobl yn pleidleisio i gael dweud eu dweud am:**



- Faint o arian mae ein gwasanaethau fel ysgolion, ysbytai, a threnau yn ei gael.



- Sut mae ein gwasanaethau yn cael eu rhedeg.



- Pwy sy’n eu cynrychioli nhw a’u hardal bleidleisio.



Mae eich pleidlais hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod gwleidyddion yn gwneud eu gwaith yn dda. Rydych chi'n gallu eu pleidleisio allan os nad ydyn nhw'n gwneud hynny.




Etholiad y Senedd ar 7 Mai 2026 ydy eich cyfle i gael eich llais wedi ei glywed.